

## **1.0 Cwmpas y Polisi**

- 1.1 Mae System Rheoli Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cwmpasu holl wasanaethau'r Awdurdod, oni bai am ysgolion. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaeth Datblygu Cymunedol, Gwasanaethau Corfforaethol, Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, Gwasanaeth Asesiadau Refeniw a Budd-daliadau, Gofal Cymdeithasol ac Addysg a Theatrau a Chanolfan Cynadleddau.
- 1.2 Mae'r prif agweddau amgylcheddol o'n gweithgareddau yn cysylltu â'n blaenoriaethau amgylcheddol ym meysydd allyriadau nwyon tŷ gwydr, y defnydd o adnoddau naturiol, rheoli gwastraff, rhyddhau elifion masnach a storio tanwydd a pherygl llygru cysylltiol.

## **2.0 Datganiad Polisi**

- 2.1 Mae'r System Rheoli Amgylcheddol a weithredir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydymffurfio â Safon ddiweddaraf y Ddraig Werdd ar gyfer Rheolaeth Amgylcheddol 2016.
- 2.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymrwymedig i'r canlynol:
- Diogelu'r amgylchedd drwy leihau effeithiau negyddol ein gweithgareddau a bod yn arweinwyr cymunedol wrth hyrwyddo gwaith rheoli amgylcheddol cyfrifol;
  - Nodi a chydymffurfio gyda'r holl rwymedigaethau perthnasol i'n sefydliad;
  - Atal llygredd aer, dŵr a thir o'n gweithgareddau a cheisio lleihau llygredd o ffynonellau eraill.

## **3.0 Amcanion Gwella**

- 3.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017-2022 wedi'i alinio i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae'n canolbwyntio ar 8 maes blaenoriaeth:
1. Mae pobl wedi'u haddysgu ac yn fedrus.
  2. Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.
  3. Mae gan bobl fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.
  4. Mae pobl yn iach ac yn egnïol.
  5. Mae pobl yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus.
  6. Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd.
  7. Mae pobl yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
  8. Mae pobl yn cyfrannu at eu cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.
- 3.2 Caiff perfformiad tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ei fonitro'n agos ac adroddir amdano yn flynyddol.

## **4.0 Adolygiad a Chymeradwyaeth**

- 4.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu o leiaf un waith y flwyddyn neu'n amlach, yn unol ag anghenion gweithredol ac anghenion busnes. Fel rhan o'r adolygiad, caiff y polisi hwn ei gyflwyno i Fwrdd y Rhaglen Werdd i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau.

**Cymeradwywyd:**



Rheolwr Rhaglen, Bwrdd y Rhaglen Werdd

Cymeradwywyd 25.09.19